Senedd Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Ymchwiliad i effaith argyfwng Covid-19 ar blant a phobl ifanc yng Nghymru

COV 183
Ymateb gan: Comisiynydd y Gymraeg

Welsh Parliament
Children, Young People and Education Committee

Inquiry into the impact of the Covid-19 outbreak on children and young people in Wales

COV 183
Response from: Welsh Language Commissioner

**Ymchwiliad i effaith argyfwng Covid-19 ar blant a phobl ifanc yng Nghymru (gan gynnwys myfyrwyr mewn addysg bellach ac uwch)**

1. Diolch ichi am y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad uchod ar effaith argyfwng Covid-19 ar blant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae fy sylwadau yn ymwneud ag effaith yr argyfwng o safbwynt y Gymraeg a phlant a phobl ifanc a hynny yn rhinwedd fy swyddogaeth yn hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gan fod y sefyllfa hon yn newid yn rheolaidd mae'n bosibl y byddaf yn cysylltu â chi eto i rannu sylwadau pellach. Dylwn nodi yn ogystal fy mod wedi gofyn i'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu gynnal ymchwiliad penodol i effaith yr argyfwng ar y Gymraeg.[1]

2. Mae fy swyddogion wedi bod mewn cyswllt â swyddogion Llywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod hwn yn benodol yn trafod y blynyddoedd cynnar ac yn rhoi sylwadau ar asesiadau effaith yn ymwneud â chau ac ailagor ysgolion. Nid ydym wedi bod yn rhan o drafodaethau eraill nac wedi trafod effaith yr argyfwng ar addysg bellach ac addysg uwch gyda swyddogion Llywodraeth Cymru.

3. Fel sefydliad, yn ystod y cyfnod clo rydym wedi parhau yn weithredol ac wedi derbyn sawl neges a sylw gan aelodau'r cyhoedd yn mynegi pryderon ynghylch effaith y cyfnod clo ar agweddau gwahanol o addysg Gymraeg. Yn y sylwadau isod rydym yn mynegi nifer o faterion a phryderon yr hoffwn i'r Pwyllgor eu hystyried wrth gynnal ei ymchwiliad.

[1] https://busnes.senedd.cymru/documents/s102786/COV58%20-%20Comisiynydd%20y%20Gymraeg.pdf

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales

## 4. Y blynyddoedd cynnar

4.1 Caewyd darpariaeth gofal plant blynyddoedd cynnar i bawb oni bai am blant oedd â'u rhieni yn gweithio mewn swyddi allweddol neu blant bregus yn ystod y cyfnod clo. Golyga hyn fod gwaith cylchoedd a lleoliadau meithrin yn cyflwyno'r Gymraeg i blant wedi dod i ben mewn nifer fawr o fannau. Mae ymchwil yn dangos fod cynifer â 88% o'r plant sydd mewn gofal cyn-statudol cyfrwng Cymraeg yn trosglwyddo i addysg gynradd cyfrwng Cymraeg.[2] Bydd rhai plant a fydd yn mynd i gylchoedd a lleoliadau meithrin ym mis Medi 2020 wedi colli cyfnod o bron i 6 mis o ofal yn y Gymraeg ers Mawrth 2020. Ein pryder yw bod potensial y byddai'r profiad hwn yn tanseilio'r penderfyniadau cadarnhaol y mae rhieni wedi'u gwneud i anfon eu plant i addysg Gymraeg oherwydd eu bod yn poeni bod eu plant wedi colli cyfnod o drochi yn y Gymraeg ac nad oes modd iddynt hwythau eu cefnogi.

4.2 Mae'n deg nodi, wrth gwrs bod y Mudiad Meithrin wedi ceisio llenwi'r bwlch drwy gynnal sesiynau Clwb Cylch ar YouTube a bod taith Dewin a Doti wedi digwydd yn rhithiol yn ogystal i geisio llenwi'r bwlch i raddau o safbwynt addysg feithrin. Rhyddhaodd S4C yn ogystal nifer o raglenni plant o'r archif ac fe welodd gynnydd o 182% yn nifer cyfartalog gwylwyr rhaglenni plant ers dechrau'r cyfnod clo.[3]

4.3 Wrth i'r cyfyngiadau lacio ac i ysgolion ailagor rydym ar ddeall bod patrwm anghyson yn amlygu ei hun wrth i rai lleoliadau agor a rhai beidio ag agor yn ddibynnol ar benderfyniadau unigol y darparwyr a/neu benderfyniadau awdurdodau lleol. Er enghraifft, rydym yn ymwybodol o achosion lle mae cyfyngu ar allu cylchoedd meithrin i ddefnyddio adeiladau ysgolion yn sgil yr argyfwng oherwydd bod rhai ysgolion yn gwahardd y defnydd o neuaddau ysgol a thoiledau gan olygu nad oes modd agor cylchoedd meithrin. Rhaid cofio yn ogystal nad oes gan nifer o gylchoedd eu hadeiladau pwrpasol eu hunain a'u bod yn ddibynnol ar leoliadau cymunedol megis neuaddau pentref ayb sy'n parhau ar gau. Pryder ychwanegol wrth i leoliadau ail agor yw effaith yr addasiadau y mae angen i ddarparwyr ei wneud o safbwynt niferoedd a gofynion cadw pellter mewn lleoliadau sy'n darparu gofal blynyddoedd cynnar ar hyfywedd economaidd y lleoliadau. Yn hyn o beth, mae'r sefyllfa yng nghyd-destun darpariaeth gofal cynnar yn wahanol i addysg statudol er bod amodau cadw pellter a niferoedd yn berthnasol yno hefyd. Nid oes gennym wybodaeth benodol am yr effaith ar leoliadau sy'n darparu gofal trwy gyfrwng y Gymraeg ond ni allwn weld y byddai'r sefyllfa yn wahanol yno gan mai'r un yw'r gofynion pellter a niferoedd.

---

[2] Data o adroddiad blynyddol y Mudiad Meithrin ar gyfer 2018-19 https://www.meithrin.cymru/creo_files/upload/downloads/terfynol_cym_adroddiad_blynyddol_cymraeg_llai.pdf

[3] Tystiolaeth i Bwyllgor Materion Cymreig San Steffan i'w ymchwiliad ar effaith Covid-19 ar ecoonomi Cymru https://committees.parliament.uk/writtenevidence/5630/pdf/

4.4 O safbwynt edrych tua'r dyfodol, mae angen atgyfnerthu'r negeseuon ynghylch buddion addysg Gymraeg ymhellach er mwyn sicrhau na chollir cyfran o blant a fyddai wedi mynd yn eu blaenau i dderbyn addysg Gymraeg mewn ysgolion cynradd. Mae hefyd angen ystyried pa gefnogaeth ychwanegol y gellid ei roi i'r rhieni hynny sydd o bosibl yn bryderus ynghylch anfon eu plant i addysg Gymraeg o ganlyniad i'r amgylchiadau sy'n deillio o'r argyfwng. Dylid ystyried hyn yn arbennig oherwydd y posibiliad y gall yr argyfwng presennol godi ei ben eto dros y misoedd neu'r blynyddoedd nesaf.

## 5. Plant o oedran addysg statudol

5.1 Mae'n bryder wrth gwrs bod y cyfnod hwn wedi effeithio ar addysg pob plentyn a bod hyn yn ei dro yn peri pryder i blant. Er enghraifft nododd adroddiad *Coronafeirws a fi*[4] y Comisiynydd Plant fod 54% o blant 12-18 oed yn poeni eu bod am gwympo tu ôl yn addysgiadol yn sgil yr argyfwng; a dim ond 11% a nododd nad oeddynt yn poeni am eu haddysg. Dywedodd 8% o'r plant 7-11 oed a oedd mewn addysg gynradd Gymraeg a atebodd i holiadur y Comisiynydd Plant nad oeddent yn cael cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod y cyfnod clo hwn. Cynydda'r ganran hon sydd ddim yn cael cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg i 15% yn y grŵp oedran 12-18 oed. Ar yr olwg gyntaf mae'r ystadegau hyn yn cyfleu mai canran fechan o blant sydd ddim wedi defnyddio'r Gymraeg o gwbl yn ystod y cyfnod clo. Eto oherwydd sefyllfa'r Gymraeg fel iaith leiafrifol a bod cynifer o blant o aelwydydd di-Gymraeg mae'n hanfodol bod plant yn cael cymaint o gyfle â phosibl i'w defnyddio.

5.2 Mae'n bryder bod y cyfnod clo hwn wedi effeithio yn arbennig ar ddisgyblion mewn addysg Gymraeg sy'n dod o aelwydydd di-Gymraeg oherwydd nad ydynt yn cael yr un cyfleoedd addysgiadol a chymdeithasol y buasent yn eu cael yn yr ysgol i ddefnyddio'r Gymraeg. Fel y gwyddoch, er mwyn dod yn rhugl mae'n hollbwysig bod plant yn dysgu'r iaith pan fônt yn ifanc, ac mewn addysg drochi mae holl addysgu a dysgu plant waeth beth fo'u cefndir ieithyddol yn digwydd trwy gyfrwng y Gymraeg hyd at 7 oed. Mae plant ifanc o gefndiroedd di-Gymraeg yn dysgu'r Gymraeg yn rhugl mewn cyfnod byr o amser fel y bo modd iddynt ddysgu'r cwricwlwm cyfan yn Gymraeg. Mae'n bryder ei bod yn bosibl y byddai'r cyfnod hwn pan fo disgyblion ifanc wedi colli cyfnod o'u haddysg drochi yn tanseilio eu sgiliau ieithyddol sydd yn y broses o gael eu datblygu. Mae'r posibilrwydd y bydd effaith ar sgiliau ieithyddol blant hŷn o gefndiroedd di-Gymraeg sydd mewn addysg Gymraeg yn ogystal. Cyfrwng addysg y plant hyn yw'r Gymraeg ac os na chânt y cyfle i'w defnyddio i'r un graddau ag y byddent yn ei wneud yn yr ysgol gall yr erydiad posibl yn eu sgiliau ieithyddol effeithio ar eu cyrhaeddiad addysgol yn y tymor hir. Credwn y bydd angen i ysgolion roi sylw penodol i gyrhaeddiad y disgyblion hyn gyda chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau na fydd effaith ar gyrhaeddiad y plant hyn. Mae hyn yn achos pryder hefyd oherwydd mae'n bosibl y bydd yn atgyfnerthu pryderon sydd gan rieni di-Gymraeg sy'n dewis anfon eu plant i addysg Gymraeg, sef nad oes modd iddynt eu cynorthwyo hwy, ac y bydd hynny yn ei dro yn gwneud iddynt ailfeddwl eu penderfyniad. Mae hyn o bosibl yn arbennig o

[4] https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2020/06/FINAL_formattedCVRep_CYM.pdf

wir yn y cyfnodau pontio hynny rhwng y blynyddoedd cynnar ac addysg statudol fel y nodwyd eisoes, a rhwng addysg gynradd ac uwchradd. Mae'n wir fod cefnogaeth ar gael gan ysgolion i rieni di-Gymraeg mewn rhai achosion ond credwn fod angen ystyried a oes angen ymgyrch bwrpasol i gefnogi rhieni sydd â'u plant mewn addysg Gymraeg. Rhaid ystyried hyn yn arbennig oherwydd y posibiliad y bydd rhaid cyflwyno mesurau cloi pellach eto yn y dyfodol.

5.3 O blith plant sy'n derbyn eu haddysg mewn ysgolion Saesneg mae'r cyswllt y byddant yn ei gael â'r Gymraeg lawer yn llai na phlant mewn addysg Gymraeg yn ôl ystadegau adroddiad *Coronafeirws a fi* y Comisiynydd Plant. Ymhlith y plant 7-11 sydd mewn lleoliadau Saesneg ac sydd fel arfer yn dysgu'r Gymraeg nid yw 31% yn cael unrhyw gyswllt â'r Gymraeg; yn y grŵp oedran 12-18 nid yw 26% yn cael cyswllt o gwbl â'r Gymraeg. Nid yw hyn wrth gwrs yn syndod ond mae'r ystadegau eto yn peri pryder gan eu bod yn amlygu'r heriau i blant mewn ysgolion Saesneg ddysgu'r Gymraeg, mater sy'n arbennig o berthnasol o ystyried amcan Llywodraeth Cymru yn Strategaeth Cymraeg 2050[5] y bydd cynnydd yn y ganran o blant sy'n gadael addysg Saesneg yn siarad Cymraeg.

5.4 Rydym hefyd yn gofyn i'r Pwyllgor ystyried effaith yr argyfwng ar blant mewn addysg ddwyieithog yn ogystal. Mae'r ddarpariaeth mewn ysgolion dwyieithog yn amrywio yn ddibynnol ar gategori ieithyddol yr ysgol a pholisïau awdurdodau lleol. Mae cryn amrywiadau a gall olygu bod rhai ysgolion yn cynnig pob pwnc yn y ddwy iaith neu rai pynciau yn y Gymraeg yn unig a rhai yn Saesneg yn unig, neu hyd yn oed ddarpariaeth ddwyieithog yn yr un dosbarth. Byddai'n dda gennym ddeall yn well sut mae'r cyfnod hwn wedi effeithio ar addysg Gymraeg yn yr ysgolion hyn, er enghraifft a arweiniodd at benderfynu dysgu pynciau mewn un iaith yn unig. Yn yr un modd, wrth i reolau ymbellhau cymdeithasol effeithio ar y nifer o blant sy'n gallu bod mewn dosbarthiadau byddai'n dda gennym wybod a arweiniodd hyn at benderfyniadau a fyddai'n lleihau faint o bynciau a gyflwynir trwy gyfrwng y Gymraeg.

5.5 Wrth gwrs, mae dull pob ysgol o ymateb i addysgu eu disgyblion o bell wedi amrywio ac felly mae'n anodd cyffredinoli. Gwyddom er hynny, fod llai o adnoddau pynciol ar gael yn y Gymraeg yn gyffredinol eisoes[6], a gan fod llawer o adnoddau digidol ar gael ar wefan Hwb Llywodraeth Cymru a bod mwy ohonynt yn Saesneg nag yn Gymraeg gellid dadlau ei bod wedi bod yn anos i athrawon cyfrwng Cymraeg ddarparu gwersi o bell ar gyfer eu disgyblion. Rydym yn deall, er hynny, bod peth gwaith wedi'i wneud o dan arweiniad Llywodraeth Cymru i ychwanegu rhagor o adnoddau Cymraeg at Hwb i gefnogi gwaith athrawon yn ystod y cyfnod hwn.

5.6 Yn gysylltiedig â'r pwynt uchod, rydym wedi derbyn rhywfaint o dystiolaeth fod rhieni yn aml yn cael eu cyfeirio at yr adnoddau hyn ar Hwb, ond nad ydynt o

[5] https://llyw.cymru/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg
[6] https://senedd.wales/laid%20documents/cr-ld11684/cr-ld11684-w.pdf

reidrwydd yn gwybod pa adnoddau i'w defnyddio, sut i ddod o hyd iddynt, ac ym mha ffyrdd dylid eu defnyddio. Efallai y byddai'n ddefnyddiol casglu rhagor o wybodaeth ynglŷn a'r defnydd o adnoddau ar lein yn ystod y cyfnod dan sylw, a hynny er mwyn sicrhau bod mwy o eglurder a chysondeb yn y dyfodol. Byddai'n ddefnyddiol edrych ar y materion hyn yng nghyd-destun y sectorau ôl-16 ac addysg uwch yn ogystal.

5.7 Mater arall y dylid tynnu sylw ato o safbwynt y Gymraeg yw bod plant wedi colli cyfleoedd i gymdeithasu yn y Gymraeg nid yn unig yn yr ysgol ond hefyd mewn gweithgareddau cymunedol a fyddai ar gael iddynt yn gysylltiedig â'r ysgol drwy eu Siarter Iaith er enghraifft. Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau a fyddai wedi cael eu trefnu gan Fentrau Iaith a chlybiau chwaraeon ac eraill yn lleol; ymweliadau â gwersylloedd yr Urdd; Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol a llu o wyliau Cymraeg eraill lleol sy'n cyfrannu at ennyn hyder a diddordeb plant yn y Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Eto, rhaid nodi bod nifer o ysgolion wedi troi at gynnal gweithgareddau digidol a bod cydweithio llwyddiannus wedi digwydd rhwng yr Urdd ac S4C a Radio Cymru i gynnal Eisteddfod T er enghraifft a bod Tafwyl wedi'i chynnal yn ddigidol. Er hynny, nid yw'r gweithgareddau digidol yn gwneud iawn am y cyfleoedd i gymdeithasu yn naturiol trwy gyfrwng y Gymraeg gyda ffrindiau a dod i gysylltiad â diwylliant Cymraeg sydd mor bwysig o safbwynt gosod cyd-destun i addysg Gymraeg. Nid yw profiad addysgol plant wedi ei gyfyngu i'r ystafell ddosbarth yn unig, felly mae angen cynllun ac amserlen ar gyfer ail gychwyn gweithgareddau fel chwaraeon sy'n digwydd tu allan a thu hwnt i ddarpariaeth ysgol.

5.8 Amlygodd adroddiad y Comisiynydd Plant effaith yr argyfwng ar iechyd meddwl plant a phobl ifanc gan dynnu sylw at eu pryderon yn sgil yr argyfwng. Mae'n bryder felly sut y bydd yr argyfwng yn effeithio yn y tymor hir ar iechyd meddwl plant a phobl ifanc. Amlygodd Cadernid Meddwl[7] adroddiad y Pwyllgor hwn yn 2018 ar y gefnogaeth ym maes iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc yng Nghymru, bryderon sawl sefydliad ynghylch diffyg yn y gwasanaethau iechyd meddwl sydd ar gael yn Gymraeg i blant a phobl ifanc. Gyda hyn mewn golwg rydym yn awyddus i sicrhau bod gwasanaethau iechyd meddwl digonol ar gael yn Gymraeg i blant a phobl ifanc, yn arbennig os bydd cynnydd yn y galw am wasanaethau yn sgil y pandemig.

## 6. Addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith

6.1 Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol sy'n gyfrifol am ddatblygu'r Gymraeg yn y sector hwn. Fel mewn addysg statudol rydym yn bryderus ynghylch pa effaith y cafodd y newid i addysgu o bell ar addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn y sector hwn, yn arbennig gan fod y canrannau a'r niferoedd sy'n gwneud hynny yn gyffredinol eisoes yn is nag yn y sector statudol. Mae'r un pryderon o safbwynt colli cyfleoedd cymdeithasol ac addysgiadol yn y Gymraeg hefyd yn berthnasol yn sector hwn hefyd ac effaith hynny ar benderfyniadau myfyrwyr ynghylch cyfrwng iaith eu

[7] https://senedd.wales/laid%20documents/cr-ld11522/cr-ld11522-w.pdf

haddysg. Dylem bwysleisio nad ydym wedi derbyn pryderon ynghylch hyn, eto buasem yn awyddus i'r Pwyllgor ystyried y ddarpariaeth addysgiadol cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn sgil yr argyfwng.

## 7. Addysg Uwch

7.1 Fel yn achos addysg bellach uchod rydym yn awyddus i sicrhau na wnaeth y newid i ddysgu o bell effeithio ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg sydd ar gael mewn addysg uwch. O edrych i'r tymor hir, rydym hefyd yn ymwybodol y gall Covid-19 gael effaith economaidd ddifrifol ar brifysgolion Cymru.[8] Rydym yn awyddus i sicrhau na fydd yr anawsterau ariannol hyn yn effeithio ar benderfyniadau ynghylch darpariaeth Gymraeg y prifysgolion ac anogwn y Pwyllgor i gadw golwg ar hyn.

8. Mae tueddiad naturiol gennym efallai i ganolbwyntio ar effeithiau negyddol argyfyngau, ac wrth gwrs mae'r pandemig wedi effeithio yn ddirfawr ac yn bersonol ar nifer fawr o bobl. Rydym ninnau hefyd wedi amlygu nifer o bryderon uchod yn bennaf am addysg Gymraeg. Wrth ichi ystyried y pryderon hyn, gofynnaf ichi ystyried hefyd a oes gwersi i'w dysgu o'r argyfwng er mwyn cefnogi addysg Gymraeg i'r tymor hwy. Er enghraifft, sut mae rhieni di-Gymraeg wedi addasu i gefnogi eu plant a pha gefnogaeth bellach y gellid ei chynnig i'w cefnogi ar sail y profiadau hynny wrth edrych i'r dyfodol; a yw'r arfer o addysgu disgyblion a myfyrwyr o bell yn gyfle i ehangu'r ddarpariaeth a gynigir trwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion, colegau a phrifysgolion fel ei gilydd?

9. Er hynny, ym mhob achos, yr hyn sy'n bwysig yw nid yn unig cyfrwng yr addysg ond y cyfleoedd cymdeithasol Cymraeg a'r cyswllt personol sydd i'w cael mewn lleoliadau lle darperir addysg Gymraeg. Yr ymwneud hwn sy'n sicrhau nad dim ond iaith addysg yw'r Gymraeg ond yn hytrach ei bod yn gyfrwng cymdeithasu a chyfathrebu pobl ifanc, a dyma'n union yr hyn y mae plant a phobl ifanc wedi'u hamddifadu ohono yn sgil y cyfnod clo hwn.

Yr eiddoch yn gywir,

**Aled Roberts**
Comisiynydd y Gymraeg

[8] https://www.cardiff.ac.uk/__data/assets/pdf_file/0010/2394361/Covid_FINAL.pdf